

# Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi

General Optical Council

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi** | **3** |
| **Y safonau** | **6** |
| 1. Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal | 8 |
| 2. Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion | 9 |
| 3. Sicrhau caniatâd dilys | 10 |
| 4. Dangos gofal a thosturi tuag at eich cleifion | 11 |
| 5. Cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol | 12 |
| 6. Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o'u mewn | 13 |
| 7. Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol | 14 |
| 8. Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion | 16 |
| 9. Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith | 17 |
| 10. Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion | 18 |
| 11. Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed | 19 |
| 12. Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion | 21 |
| 13. Dangos parch a thegwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu | 23 |
| 14. Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion | 25 |
| 15. Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill | 27 |
| 16. Bod yn onest ac yn ddibynadwy | 28 |
| 17. Peidio â niweidio enw da eich proffesiwn drwy eich ymddygiad | 29 |
| 18. Ymateb yn effeithiol i gwynion | 30 |
| 19. Bod yn ddidwyll pan fydd pethau wedi mynd o chwith | 31 |




# Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi

## Safonau Ymarfer

Mae ein Safonau Ymarfer yn diffinio'r safonau ymddygiad a pherfformiad a ddisgwyliwn i bob optometrydd ac optegydd cyflenwi cofrestredig eu cyrraedd.

## Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw rheoleiddiwr y DU ar gyfer y proffesiynau optegol sydd â chyfrifoldeb statudol dros osod safonau.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r pedair safon ar bymtheg y mae'n rhaid i chi eu bodloni fel gweithiwr optegol proffesiynol. Nid yw'r safonau hyn wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth ac maent yn cynnwys safonau sy'n ymwneud a'ch ymddygiad a'ch perfformiad proffesiynol fel ei gilydd. Bydd angen i chi arfer eich barn broffesiynol wrth benderfynu sut i gyrraedd y safonau. Er mwyn eich helpu i wneud hynny, rydym wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennych chi o dan bob safon. Mewn perthynas â nifer fach o safonau, efallai y byddwn yn cynhyrchu deunydd atodol lle teimlwn fod angen cymorth ychwanegol ar y cofrestreion.

## Eich rôl fel gweithiwr proffesiynol

Fel gweithiwr proffesiynol gofal iechyd cofrestredig, mae cyfrifoldeb arnoch i sicrhau gofal a diogelwch eich cleifion a'r cyhoedd, ac i gynnal safonau proffesiynol.

Rydych chi'n atebol yn broffesiynol ac yn bersonol gyfrifol am eich ymarfer ac am yr hyn rydych chi'n ei wneud neu ddim yn ei wneud, ni waeth pa gyfarwyddyd neu arweiniad rydych chi'n ei gael gan gyflogwr neu gydweithiwr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi bob amser allu cyfiawnhau eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd.

Rhaid i chi gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i chi, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb, iechyd a diogelwch, diogelu data, meddyginiaethau a diogelu defnyddwyr. Os ydych yn darparu gwasanaethau iechyd cenedlaethol, dylech gadw at unrhyw ofynion ychwanegol.

Disgwylir i'r holl gofrestreion ddangos sgiliau, rhinweddau ac ymddygiadau arwain, sy'n berthnasol i'w cwmpas ymarfer. Mae enghreifftiau o adegau pan allai'r rhai sy'n cofrestru ddangos arweinyddiaeth yn cynnwys mabwysiadu dull cydweithredol o ymarfer, modelu ymddygiad proffesiynol, awgrymu atebion arloesol i broblemau a chefnogi addysg a hyfforddiant pobl eraill. Mae sgiliau, priodoleddau ac ymddygiadau arwain wedi'u hymgorffori yn y safonau ac yn berthnasol i bob agwedd ar eich gwaith.

Os bydd rhywun yn mynegi pryderon am eich addasrwydd i ymarfer, byddwn yn cyfeirio at y safonau hyn wrth benderfynu a oes angen i ni gymryd unrhyw gamau. Bydd angen i chi ddangos bod eich penderfyniadau wedi'u llywio gan y safonau hyn a'ch bod wedi gweithredu er budd pennaf eich cleifion.

## Y gwaith o ofalu am eich cleifion yw eich prif bryder a'ch pryder cyntaf

Rhaid i ofal, lles a diogelwch cleifion fod yn brif ystyriaeth i chi bob amser. Mae hyn wrth galon bod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Hyd yn oed os nad oes gennych gysylltiad uniongyrchol â chleifion, gall eich penderfyniadau neu ymddygiad effeithio ar eu gofal a diogelwch o hyd.

Ystyriwch ac ymatebwch i anghenion cleifion sydd, oherwydd eu hamgylchiadau personol, angen gofal, cefnogaeth neu ddiogelwch penodol neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Gall cleifion fod yn agored i niwed am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol, y gallu i reoli eu hiechyd, neu ddelio â set anodd o ddigwyddiadau bywyd. Gall lefelau agored i niwed amrywio rhwng cyd-destunau, a newid dros amser, felly ystyriwch ba mor agored i niwed yw claf fel rhan o bob ymgynghoriad.

# Y safonau

A chithau'n optometrydd neu'n optegydd cyflenwi, rhaid i chi wneud y canlynol:

1. Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal
2. Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion
3. Sicrhau caniatâd dilys
4. Dangos gofal a thosturi tuag at eich cleifion
5. Cadw'ch gwybodaeth a'ch sgiliau yn gyfredol
6. Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o'u mewn
7. Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol
8. Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion
9. Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith
10. Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion
11. Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed
12. Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion
13. Dangos parch a thegwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu
14. Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion
15. Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill
16. Bod yn onest ac yn ddibynadwy
17. Peidio â niweidio enw da eich proffesiwn drwy eich ymddygiad
18. Ymateb yn effeithiol i gwynion
19. Bod yn ddidwyll pan fydd pethau wedi mynd o chwith

Bydd angen i chi arfer eich barn broffesiynol wrth benderfynu sut i gyrraedd y safonau. Er mwyn eich helpu i wneud hynny, mae'r adran nesaf yn rhoi mwy o fanylion ynghylch beth rydym yn ei ddisgwyl gennych mewn perthynas â phob safon.

## 1. Gwrando ar gleifion a sicrhau eu bod wrth galon y penderfyniadau a wneir am eu gofal

1.1 Rhowch eich sylw llawn i gleifion a chaniatáu digon o amser i ddelio'n briodol â'u hanghenion.

1.2 Gwrandewch ar gleifion ac ystyried eu barn, eu dymuniadau a'u pryderon, gan ymateb yn onest ac yn briodol i'w cwestiynau.

1.3 Helpwch gleifion i arfer eu hawliau a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal. Parchwch y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud.

1.4 Cofiwch drin cleifion fel unigolion a pharchu eu hurddas a'u preifatrwydd. Mae hyn yn cynnwys hawl claf i gyfrinachedd.

1.5 Lle bo'n bosibl, addaswch eich gofal a'ch triniaeth yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau eich claf heb gyfaddawdu ar eu diogelwch.

1.6 Ystyriwch yr holl wybodaeth a ddarparwyd gan eich cleifion, gan gynnwys lle maent wedi cynnal ymchwil cyn yr ymgynghoriad. Eglurwch yn glir os nad yw'r wybodaeth yn ddilys neu'n berthnasol.

1.7 Anogwch gleifion i ofyn cwestiynau a chymryd rhan weithredol yn y penderfyniadau a wneir am eu triniaeth, eu presgripsiwn a'u hôl-ofal.

1.8 Cefnogwch gleifion i ofalu amdanynt eu hunain, gan gynnwys rhoi cyngor ar effeithiau dewisiadau bywyd a ffordd o fyw ar eu hiechyd a'u lles, a'u cefnogi i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw lle bo hynny'n briodol.

## 2. Cyfathrebu'n effeithiol â'ch cleifion

2.1 Rhowch wybodaeth i gleifion mewn ffordd y gallant ei deall. Defnyddiwch eich barn broffesiynol i addasu eich iaith a'ch dull cyfathrebu fel y bo'n briodol.

2.2 Dywedwch eich enw a'ch rôl a rhowch gyngor i gleifion ar y sawl a fydd yn darparu eu gofal. Esboniwch i gleifion beth i'w ddisgwyl o'r ymgynghoriad a sicrhewch eu bod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau neu newid eu meddwl cyn bwrw ymlaen.

2.3 Byddwch yn effro i arwyddion dilafar a allai ddangos diffyg dealltwriaeth, anghysur neu ddiffyg caniatâd claf.

2.4 Sicrhewch fod y bobl rydych chi'n gyfrifol amdanynt yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â chleifion a'u gofalwyr, cydweithwyr ac eraill.

2.5 Sicrhewch fod cleifion neu eu gofalwyr yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddefnyddio, gweinyddu neu ofalu'n ddiogel am unrhyw gyfarpar, cyffuriau neu driniaeth arall sydd wedi cael ei rhoi ar bresgripsiwn iddynt, neu eu bod wedi cael cyfarwyddyd i'w defnyddio er mwyn rheoli eu cyflyrau llygaid. Mae hyn yn cynnwys mynd ati i ddangos sut i ddefnyddio unrhyw un o'r uchod.

2.6 Byddwch yn sensitif ac yn gefnogol wrth ddelio â pherthnasau neu bobl eraill sy'n agos at y claf.

## 3. Sicrhau caniatâd dilys

3.1 Sicrhewch eich bod yn cael caniatâd dilys cyn archwilio claf, darparu triniaeth neu gynnwys cleifion mewn gweithgareddau addysgu ac ymchwil. Er mwyn i ganiatâd fod yn ddilys, rhaid ei roi yn y dulliau canlynol:

3.1.1 Yn wirfoddol.

3.1.2 Gan y claf neu rywun sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran y claf.

3.1.3 Gan unigolyn sydd â'r gallu i roi caniatâd.

3.1.4 Gan unigolyn sydd â gwybodaeth briodol. Yn y cyd-destun hwn, mae rhoi gwybodaeth briodol yn golygu egluro beth rydych chi'n mynd i'w wneud a sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o unrhyw risgiau ac opsiynau o ran archwilio, trin, cyflenwi offer neu ymchwil maen nhw'n cymryd rhan ynddo. Mae hyn yn cynnwys hawl y claf i wrthod triniaeth neu gael hebryngydd neu ddehonglydd yn bresennol.

3.2 Byddwch yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â chaniatâd, gan gynnwys y gwahaniaethau yn y ddarpariaeth o ganiatâd ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Pan fyddwch chi'n gweithio mewn gwlad yn y DU, ac eithrio lle rydych chi fel arfer yn ymarfer, byddwch yn ymwybodol o unrhyw wahaniaethau mewn cyfraith caniatâd a defnyddiwch y rhain yn eich ymarfer.

3.3 Sicrhewch fod caniatâd y claf yn parhau'n ddilys ar bob cam o'r archwiliad neu'r driniaeth ac yn ystod unrhyw ymchwil y mae'n cymryd rhan ynddi.

## 4. Dangos gofal a thosturi tuag at eich cleifion

4.1 Cofiwch drin pobl eraill ag urddas a dangoswch empathi a pharch.

4.2 Ymatebwch gyda charedigrwydd i amgylchiadau lle gall cleifion, eu teulu neu ofalwyr brofi poen, trallod neu bryder, gan gynnwys wrth gyfathrebu newyddion drwg.

## 5. Cadw'ch ein gwybodaeth a'n sgiliau yn gyfredol

5.1 Byddwch yn gymwys ym mhob agwedd ar eich gwaith, gan gynnwys ymarfer clinigol, goruchwylio, addysgu, ymchwil a rolau rheoli, ac nid yn cyflawni unrhyw rolau nad ydych yn gymwys ynddynt.

5.2 Cydymffurfiwch â gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) y Cyngor Optegol Cyffredinol fel rhan o ymrwymiad i gynnal a datblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau drwy gydol eich gyrfa fel gweithiwr optegol proffesiynol.

5.3 Byddwch yn ymwybodol o arferion da cyfredol, gan ystyried datblygiadau perthnasol mewn ymchwil ac ymarfer clinigol, gan gynnwys technolegau digidol, i lywio'r gofal rydych chi'n ei ddarparu.

5.4 Myfyriwch ar eich ymarfer a cheisiwch wella ansawdd eich gwaith drwy weithgareddau fel adolygiadau, archwiliadau, arfarniadau neu asesiadau risg. Gweithredwch unrhyw gamau gweithredu sy'n deillio o'r rhain.

## 6. Cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd a gweithio o'u mewn

6.1 Cofiwch gydnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau cwmpas eich ymarfer, gan ystyried eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad.

6.2 Byddwch yn gallu nodi pryd mae angen i chi atgyfeirio claf er budd iechyd a diogelwch y claf a gwneud atgyfeiriadau priodol.

6.3 Gwnewch yn siŵr bod gennych y cymwysterau gofynnol sy'n berthnasol i'ch ymarfer.

6.4 Rydych yn deall a chydymffurfio â gofynion cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol a'r rhwymedigaethau cyfreithiol o ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a gyfyngir gan y gyfraith, e.e. profion golwg a chyflenwi offer.

## 7. Cynnal asesiadau, archwiliadau, triniaethau ac atgyfeiriadau priodol

7.1 Byddwch yn cynnal asesiad digonol at ddibenion yr ymgynghoriad optegol, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw hanes meddygol, teuluol a chymdeithasol perthnasol y claf. Gall hyn gynnwys symptomau cyfredol, credoau personol, ffactorau diwylliannol ac elfennau sy'n eu gwneud yn agored i niwed.

7.2 Darparwch neu trefnwch unrhyw archwiliadau, cyngor, ymchwiliadau neu driniaeth bellach os oes eu hangen ar eich claf. Dylid gwneud hyn o fewn amserlen nad yw'n peryglu diogelwch a gofal cleifion.

7.3 Peidiwch â rhoi cyfarpar, cyffuriau na thriniaeth ar bresgripsiwn oni bai bod gennych wybodaeth ddigonol am iechyd y claf.

7.4 Gwnewch yn siŵr bod y gofal a'r driniaeth rydych chi'n eu darparu ar gyfer pob claf yn gydnaws ag unrhyw driniaethau eraill mae'r claf yn eu cael, gan gynnwys meddyginiaethau dros y cownter (pan fo hynny'n bosibl).

7.5 Darparwch ofal a thriniaethau effeithiol i gleifion yn seiliedig ar arfer da cyfredol.

7.6 Dim ond os oes cyfiawnhad clinigol dros y rhain ac er budd pennaf y claf y dylech ddarparu neu argymell archwiliadau, triniaethau, cyffuriau neu gyfarpar. Rhowch wybodaeth i gleifion am yr holl opsiynau perthnasol sydd ar gael iddynt, gan gynnwys yr opsiwn o beidio â chael triniaeth neu ymyrraeth bellach, mewn ffordd y gallant ei deall.

7.7 Os nad ydych yn siŵr, dylech ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn briodol i gael cyngor ar asesu, archwilio, triniaeth ac agweddau eraill ar ofal cleifion, gan gofio'r angen am gyfrinachedd cleifion.

7.8 Defnyddiwch eich barn broffesiynol wrth ddefnyddio data a gynhyrchir gan dechnolegau digidol i lywio penderfyniadau.

## 8. Cynnal cofnodion priodol am eich cleifion

8.1 Rhaid i chi gynnal cofnodion cleifion clir, darllenadwy a chyfoes sy'n hygyrch i bawb sy'n ymwneud â gofal y claf.

8.2 Ar y lleiaf, cofnodwch y wybodaeth ganlynol:

8.2.1 Dyddiad yr ymgynghoriad.

8.2.2 Manylion personol eich claf.

8.2.3 Y rheswm dros yr ymgynghoriad ac unrhyw gyflwr a gyflwynir.

8.2.4 Manylion a chanfyddiadau unrhyw asesiad neu archwiliad.

8.2.5 Manylion unrhyw driniaeth, atgyfeiriad neu gyngor a ddarparwyd gennych, gan gynnwys unrhyw gyffuriau neu gyfarpar a roddwyd ar bresgripsiwn neu gopi o lythyr atgyfeirio.

8.2.6 Caniatâd ar gyfer unrhyw archwiliad neu driniaeth.

8.2.7 Manylion pawb sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad optegol, gan gynnwys enw a llofnod, neu fodd arall o adnabod yr awdur.



## 9. Sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn briodol a'i bod yn cydymffurfio â'r gyfraith

Mae hyn yn berthnasol i oruchwylio hyfforddeion cyn-cofrestru a chydweithwyr anghofrestredig sy'n gwneud gweithgareddau dirprwyedig. Mae'r cyfrifoldeb i sicrhau nad yw goruchwyliaeth yn peryglu gofal a diogelwch cleifion yn cael ei rannu rhwng y goruchwyliwr a'r rhai sy'n cael eu goruchwylio. Mae goruchwyliaeth ddigonol yn gofyn i chi:

9.1 Feddu ar ddigon o gymwysterau a phrofiad i gyflawni'r swyddogaethau yr ydych yn eu goruchwylio.

9.2 Dim ond i'r rheini sydd â'r cymwysterau, y wybodaeth neu'r sgiliau priodol i gyflawni'r gweithgaredd dirprwyedig y dylid dirprwyo iddynt.

9.3 Bod ar y safle, mewn sefyllfa i oruchwylio'r gwaith a wneir ac yn barod i ymyrryd os oes angen er mwyn diogelu cleifion.

9.4 Cadw cyfrifoldeb clinigol dros y claf. Pan fyddwch yn dirprwyo, byddwch yn cadw'r cyfrifoldeb dros y dasg ddirprwyedig a thros sicrhau ei bod wedi'i chyflawni i'r safon briodol.

9.5 Cymryd pob cam rhesymol i atal niwed i gleifion sy'n deillio o weithredoedd y rhai sy'n cael eu goruchwylio.

9.6 Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol sy'n rheoli'r gweithgaredd.

9.7 Sicrhau bod manylion y rhai sy'n cael eu goruchwylio neu sy'n cyflawni gweithgareddau dirprwyedig yn cael eu cofnodi ar gofnod y claf.

## 10. Gweithio'n gydweithredol â chydweithwyr er budd cleifion

10.1 Cydweithiwch â chydweithwyr yn y proffesiynau optegol ac ymarferwyr gofal iechyd eraill er budd pennaf eich cleifion, gan sicrhau eich bod yn cyfathrebu yn glir ac yn effeithiol.

10.2 Atgyfeiriwch glaf dim ond lle mae cyfiawnhad clinigol dros hyn, wedi'i wneud er budd y claf ac nad yw'n peryglu gofal neu ddiogelwch y claf. Wrth wneud neu dderbyn atgyfeiriad, rhaid i'r naill barti a'r llall nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am ofal y claf.

10.3 Sicrhewch fod gan yr unigolion neu'r sefydliadau hynny yr ydych yn atgyfeirio atynt y cymwysterau a'r cofrestriad angenrheidiol fel nad yw gofal cleifion yn cael ei beryglu.

10.4 Sicrhewch fod gwybodaeth cleifion yn cael ei rhannu'n briodol ag eraill, a bod cofnodion clinigol yn hygyrch i bawb sy'n ymwneud â gofal y claf.

10.5 Pan fydd anghytuno'n digwydd rhwng cydweithwyr, ceisiwch ddatrys y rhain er budd y claf.

## 11. Amddiffyn a diogelu cleifion, cydweithwyr ac eraill rhag niwed

11.1 Rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, a chydymffurfio â nhw.

11.2 Amddiffynnwch a diogelwch blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhaid i chi wneud y canlynol:

11.2.1 Bod yn ymwybodol o arwyddion o gam-drin a gwadu hawliau.

11.2.2 Ystyried anghenion a lles eich cleifion.

11.2.3 Rhoi gwybod am bryderon i unigolyn neu sefydliad priodol.

11.2.4 Gweithredu'n gyflym er mwyn atal rhagor o berygl o niwed.

11.2.5 Cadw nodiadau digonol am yr hyn sydd wedi digwydd a pha gamau a gymerwyd gennych.

11.3 Codwch bryderon yn brydlon am eich cleifion, cydweithwyr, cyflogwr neu sefydliad arall, os gallai diogelwch cleifion neu'r cyhoedd fod mewn perygl ac annog eraill i wneud yr un peth. Dylid codi pryderon gyda'ch sefydliad cyflogi, contractio, proffesiynol neu reoleiddiol fel y bo'n briodol. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'chwythu'r chwiban' ac mae rhai agweddau ar hyn yn cael eu gwarchod gan y gyfraith.

11.4 Os oes gennych bryderon am eich addasrwydd i ymarfer eich hun, boed hynny oherwydd materion iechyd, cymeriad, ymddygiad, barn, neu unrhyw fater arall a allai beryglu diogelwch cleifion neu niweidio enw da eich proffesiwn, rhowch y gorau i ymarfer ar unwaith a cheisiwch gyngor priodol.

11.5 Os yw cleifion mewn perygl oherwydd adeiladau, cyfarpar, adnoddau, polisïau cyflogaeth neu systemau annigonol, rhaid unioni'r mater os yw hynny'n bosibl a/neu godi pryder.

11.6 Sicrhewch nad yw unrhyw gontractau neu gytundebau rydych yn ymrwymo iddynt yn eich cyfyngu rhag mynegi pryderon am ddiogelwch cleifion, gan gynnwys cyfyngu ar yr hyn y gallwch ei ddweud wrth fynegi'r pryder.

11.7 Wrth roi gwybod am bryderon, sicrhewch eich bod yn ystyried eich rhwymedigaethau i gynnal cyfrinachedd fel yr amlinellir yn safon 14.

11.8 Os oes gennych chi glefyd heintus difrifol, neu os ydych chi wedi dod i gysylltiad â chlefyd heintus difrifol, ac yn credu y gallech chi fod yn gludwr, ni ddylech ymarfer nes eich bod wedi gofyn am gyngor meddygol priodol. Rhaid i chi ddilyn y cyngor meddygol a gewch, a allai gynnwys yr angen i atal, neu addasu eich ymarfer a/neu ganllawiau ar sut i atal y clefyd rhag cael ei drosglwyddo i eraill. I gael arweiniad ar glefydau heintus difrifol, cyfeiriwch at y canllawiau cyfredol ar iechyd y cyhoedd.

## 12. Sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer eich cleifion

12.1 Sicrhewch fod amgylchedd diogel i ddarparu gofal i'ch cleifion, a chymryd camau priodol os nad hyn yw'r achos (gweler safon 11). Yn enwedig

- 12.1.1 Byddwch yn ymwybodol o ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a chydymffurfio â hi.
- 12.1.2 Gwnewch yn siŵr bod yr amgylchedd a'r offer rydych chi'n eu defnyddio yn hylan.
- 12.1.3 Gwnewch yn siŵr bod yr offer rydych chi'n ei ddefnyddio wedi cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.
- 12.1.4 Dilynwch y rheoliadau ar sylweddau sy'n beryglus i iechyd.
- 12.1.5 Gwaredwch ddeunyddiau rheoledig, clinigol ac annymunol mewn modd priodol.
- 12.1.6 Ewch ati i leihau'r risg o haint drwy ddilyn mesurau rheoli heintiau priodol gan gynnwys hylendid dwylo.

12.2 Mae gennych yswiriant indemniad proffesiynol digonol a dim ond yn gweithio mewn practisau sydd ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- 12.2.1 Os darperir yswiriant gan eich cyflogwr, rhaid i chi gadarnhau bod yswiriant digonol ar waith.

12.2.2 Os ydych chi'n gweithio mewn sawl practis, rhaid i chi sicrhau bod digon o yswiriant ar gyfer pob amgylchedd gwaith.

12.2.3 Rhaid i'ch yswiriant indemniad proffesiynol fod yn barhaus ar gyfer y cyfnod yr ydych yn ymarfer.

12.2.4 Rhaid i'ch yswiriant indemniad proffesiynol gynnwys cwynion a dderbynnir ar ôl i chi roi'r gorau i ymarfer, gan y gellid derbyn y rhain flynyddoedd yn ddiweddarach – cyfeirir at hyn weithiau fel yswiriant 'anweithredol'.

12.3 Sicrhewch, wrth weithio yng nghartref claf neu leoliad cymunedol arall, bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer darparu gofal.

12.4 Mewn argyfwng, cymerwch gamau priodol i ddarparu gofal, gan ystyried eich cymhwysedd ac opsiynau eraill sydd ar gael. Rhaid i chi wneud y canlynol:

12.4.1 Defnyddiwch eich barn broffesiynol i asesu pa mor frys yw'r sefyllfa.

12.4.2 Rhoi unrhyw ofal sydd o fewn cwmpas eich ymarfer a fydd o fudd i'r claf.

12.4.3 Gwneud eich gorau glas i atgyfeirio neu gyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ffynhonnell gofal lle bo hynny'n briodol.

## 13. Dangos parch at degwch tuag at eraill a pheidio â gwahaniaethu'n annheg

13.1 Parchwch urddas claf, gan ddangos cwrteisi ac ystyriaeth.

13.2 Hyrwyddwch gydraddoldeb, gwerthfawrogwch amrywiaeth a byddwch yn gynhwysol yn eich holl gysylltiadau â chleifion, y cyhoedd, cydweithwyr ac eraill y mae gennych berthynas broffesiynol â nhw. Peidiwch â gwahaniaethu ar sail nodweddion a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

13.3 Sicrhewch nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd crefyddol, moesol, gwleidyddol neu bersonol eich hun yn rhagfarnu gofal cleifion. Os yw'r rhain yn eich atal rhag darparu gwasanaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio cleifion at ddarparwyr priodol eraill.

13.4 Parchwch sgiliau a chyfraniadau cydweithwyr, a pheidiwch â gwneud sylwadau diangen neu ddilornus a allai wneud i glaf amau cymhwysedd, sgiliau neu addasrwydd cydweithwyr i ymarfer. Mae hyn yn berthnasol i gyfathrebu cyhoeddus, preifat ac ar-lein. Os oes gennych bryderon am addasrwydd cydweithiwr i ymarfer, cyfeiriwch at safon 11.

13.5 Byddwch yn ymwybodol o sut y gallai eich ymddygiad eich hun ddylanwadu ar gydweithwyr a myfyrwyr a dangos ymddygiad proffesiynol bob amser.

13.6 Cefnogwch gydweithwyr a chynnig arweiniad lle maent wedi nodi problemau gyda'u perfformiad neu eu hiechyd neu eu bod wedi gofyn am eich help, ond rhowch fuddion a diogelwch cleifion yn gyntaf bob amser.

13.7 Ystyriwch ac ymatebwch i anghenion cleifion ag anabledd, a chleifion mewn amgylchiadau bregus, a gwneud addasiadau rhesymol i'ch practis i ddarparu ar gyfer y rhain a gwella mynediad at ofal optegol.

13.8 Heriwch gydweithwyr os yw eu hymddygiad yn wahaniaethol a bod yn barod i roi gwybod am ymddygiad sy'n gyfystyr â cham-drin neu sy'n gwrthod hawl claf neu gydweithiwr, neu a allai danseilio diogelwch cleifion.

## 14. Cynnal cyfrinachedd a pharchu preifatrwydd eich cleifion

14.1 Cadwch yr holl wybodaeth am gleifion yn gyfrinachol yn unol â'r gyfraith, gan gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i hysgrifennu â llaw, yn ddigidol, yn weledol, yn sain neu wedi'i chadw yn eich cof.

14.2 Sicrhewch fod yr holl staff rydych chi'n eu cyflogi neu'n gyfrifol amdanynt yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o ran cadw cyfrinachedd.

14.3 Sicrhewch gyfrinachedd wrth gyfathrebu'n gyhoeddus, gan gynnwys siarad neu ysgrifennu yn y cyfryngau, neu wrth ysgrifennu a rhannu delweddau ar-lein, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

14.4 Cydweithredwch ag ymholiadau ac ymchwiliadau ffurfiol a rhowch yr holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani yn unol â'ch rhwymedigaethau i gyfrinachedd cleifion.

14.5 Darparwch lefel briodol o breifatrwydd i'ch cleifion yn ystod yr ymgynghoriad i sicrhau bod y broses o gasglu, archwilio a thrin gwybodaeth yn aros yn gyfrinachol. Bydd angen gwahanol lefelau o breifatrwydd ar wahanol gleifion a rhaid ystyried eu dewisiadau.

14.6 Dim ond at y dibenion y'i rhoddwyd y dylech ddefnyddio'r wybodaeth am gleifion a gasglwyd gennych, neu lle mae'n ofynnol i chi ei rhannu yn ôl y gyfraith, neu er budd y cyhoedd.

14.7 Storiwch a diogelwch eich cofnodion cleifion yn ddiogel er mwyn eu hatal rhag cael eu colli, eu dwyn neu eu datgelu'n amhriodol, yn unol â'r gyfraith diogelu data. Os ydych chi'n weithiwr, yna byddai hyn yn unol â pholisi storio eich cyflogwr.

14.8 Gwaredwch gofnodion cleifion yn gyfrinachol pan nad oes eu hangen mwyach yn unol â gofynion diogelu data.



## 15. Cynnal ffiniau priodol â phobl eraill

15.1 Cynhaliwch ffiniau priodol gyda'ch cleifion, myfyrwyr, cydweithwyr ac eraill y mae gennych berthynas broffesiynol â nhw. Mae cynnal ffiniau priodol yn berthnasol i'ch ymddygiad, eich gweithredoedd a'ch dulliau cyfathrebu.

15.2 Peidiwch byth â cham-drin eich sefyllfa broffesiynol i ecsbloetio neu ddylanwadu'n ormodol ar eich cleifion neu'r cyhoedd, boed hynny'n wleidyddol, yn ariannol, yn rhywiol neu drwy ddulliau eraill, sy'n gwasanaethu eich buddiannau eich hun.

15.3 Rhaid i chi beidio â chymryd rhan mewn ymddygiad digroeso o natur rywiol gyda myfyrwyr, cydweithwyr neu eraill y mae gennych berthynas broffesiynol â nhw. Rhaid i chi beidio â chreu amgylchedd bygythiol, diraddiol, bychanol neu sarhaus, boed yn fwriadol ai peidio. Mae cynnal ffiniau rhywiol yn berthnasol i'ch ymddygiad, eich gweithredoedd a'ch dulliau cyfathrebu.

15.4 Rhaid i chi beidio â chymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol ei natur gyda chleifion na thramgwyddo eu hurddas. Mae cynnal ffiniau rhywiol yn berthnasol i'ch ymddygiad, eich gweithredoedd a'ch dulliau cyfathrebu.

## 16. Bod yn onest ac yn ddibynadwy

16.1 Rhaid i chi ymddwyn yn onest ac yn ddidwyll er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn eich proffesiwn.

16.2 Rhaid i chi osgoi neu reoli unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau a allai effeithio ar eich barn broffesiynol. Os yw'n briodol, datganwch fuddiant, tynnwch eich hun o'r gwrthdaro a gwrthodwch roddion a lletygarwch.

16.3 Sicrhewch nad yw cymhellion, targedau a ffactorau tebyg yn effeithio ar eich barn broffesiynol. Peidiwch â chaniatáu i fuddiannau ac enillion personol neu fasnachol beryglu diogelwch cleifion.

16.4 Gwnewch yn siŵr nad ydych yn gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol wrth ddisgrifio eich gwybodaeth, profiad, arbenigedd ac arbenigedd unigol, gan gynnwys drwy ddefnyddio teitlau.

16.5 Byddwch yn onest yn eich trafodion ariannol a masnachol a rhowch wybodaeth glir i gleifion am gostau eich gwasanaethau a'ch cynnyrch proffesiynol cyn iddynt ymrwymo i brynu.

16.6 Peidiwch â gwneud datganiadau camarweiniol, dryslyd neu anghyfreithlon yn eich cyfathrebiadau na'ch hysbysebion.

## 17. Peidio â niweidio enw da eich proffesiwn drwy eich ymddygiad

17.1 Sicrhewch nad yw eich ymddygiad, p'un a yw'n gysylltiedig â'ch ymarfer proffesiynol neu beidio, yn niweidio hyder y cyhoedd ynoch chi neu'ch proffesiwn.

17.2 Sicrhewch nad yw eich ymddygiad yn yr amgylchedd ar-lein, yn enwedig mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol, p'un a yw'n gysylltiedig â'ch ymarfer proffesiynol ai peidio, yn niweidio hyder y cyhoedd ynoch chi neu yn eich proffesiwn.

17.3 Byddwch yn ymwybodol o'r gyfraith a rheoliadau sy'n effeithio ar eich ymarfer, a holl ofynion y Cyngor Optegol Cyffredinol a chydymffurfio â nhw.

## 18. Ymateb yn effeithiol i gwynion

18.1 Gweithredwch system gwyno neu dilynwch y system sydd gan eich cyflogwr ar waith, gan wneud cleifion yn ymwybodol o'u cyfleoedd i gwyno i chi eich hun neu i'ch cyflogwr. Ar y cam priodol yn y broses, dylid rhoi gwybod i'r claf hefyd am ei hawliau i gwyno i'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu i geisio cyfryngu drwy Wasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol.

18.2 Parchwch hawl claf i gwyno a sicrhau nad yw gwneud cwyn yn niweidio gofal cleifion.

18.3 Ymatebwch yn onest, yn agored, yn gwrtais ac yn adeiladol i unrhyw un sy'n cwyno ac ymddiheurwch lle bo hynny'n briodol.

18.4 Rhowch unrhyw wybodaeth y gallai fod ei hangen ar achwynydd i fwrw ymlaen â chwyn, gan gynnwys eich manylion cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, a manylion unrhyw feysydd ymarfer arbenigol cofrestredig.

## 19. Bod yn ddidwyll pan fydd pethau wedi mynd o chwith

19.1 Byddwch yn agored ac yn onest gyda'ch cleifion pan fyddwch wedi gweld bod pethau wedi mynd o'i le gyda'u triniaeth neu ofal sydd wedi achosi iddynt ddioddef niwed neu ofid, neu lle gallai fod goblygiadau o ran gofal cleifion yn y dyfodol. Rhaid i chi wneud y canlynol:

19.1.1 Dweud wrth y claf neu, lle bo'n briodol, eiriolwr, gofalwr neu deulu'r claf, bod rhywbeth wedi mynd o'i le.

19.1.2 Cynnig ymddiheuriad.

19.1.3 Cynnig camau neu gymorth priodol i unioni pethau (os yw'n bosibl).

19.1.4 Esbonio'n llawn ac yn brydlon beth sydd wedi digwydd a'r effeithiau tymor byr a thymor hir tebygol.

19.1.5 Amlinellu yr hyn y byddwch yn ei wneud, lle bo'n bosibl, i atal hyn rhag digwydd eto a gwella gofal i gleifion yn y dyfodol.

19.2 Bod yn agored ac yn onest gyda'ch cydweithwyr, cyflogwyr a sefydliadau perthnasol a chymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau ar gais a gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol, gan godi pryderon lle bo hynny'n briodol. Cefnogwch ac anogwch eich cydweithwyr i fod yn agored ac yn onest, a pheidio â rhwystro rhywun rhag mynegi pryderon.

19.3 Wrth roi gwybod pan aiff pethau o chwith, sicrhewch eich bod yn ystyried eich rhwymedigaethau i fyfyrio ar eich ymarfer a'i wella, fel yr amlinellir yn safon 5.

General Optical Council
10 Old Bailey
London, EC4M 7NG

Telephone +44 (0)20 7580 3898
Email standards@optical.org

𝕏 @GOC_UK
www.optical.org